



# CLWB CYMERAU



## COFRESTRU PLENTYN A CHYTUNDEB Y RHIANT/GWARCHODWR

Manylion Personol y Plentyn	
Enw llawn y plentyn:	
Rhyw:	
Enw'r ysgol:	
Dosbarth:	
Dyddiad geni:	diwrnod/mis/blwyddyn

Gwybodaeth Feddygol am Blentyn/Anghenion Unigol	
Enw'r Meddyg:	
Enw a chyfeiriad y feddygfa:	
Côd post:	
Rhif ffôn y meddyg:	
Cyflyrau meddygol, alergeddau, anghenion deietegol ac iechyd arbennig y gwyddys amdanynt:	OES <input type="checkbox"/> NAC OES <input type="checkbox"/> Os oes, rhowch fanylion, os gwelwch yn dda:
Unrhyw wybodaeth perthnasol arall:	

## COFRESTRU PLENTYN A CHYTUNDEB Y RHIANT/GWARCHODWR (Parhad)

Manylion y rhiant (rhieni) / gwarchodwr(wyr)	Rhiant/Gwarchodwr 1	Rhiant/Gwarchodwr 2
Enwau llawn y Rhieni/Gwarchodwyr:		
Perthynas â'r plentyn:		
Cyfeiriad cartref:		
Côd post:		
Rhif ffôn cartref:		
Rhif ffôn gwaith:		
Rhif ffôn symudol:		
Ebost:		

Oedolion eraill sydd ag awdurdod i gasglu'r plentyn, neu y gellir cysylltu â hwy mewn argyfwng:				
	Person cyswllt 3	Person cyswllt 4	Person cyswllt 5	Person cyswllt 6
Enw llawn:				
Perthynas â'r plentyn:				
Cyfrinair personol:				
Cyfeiriad cartref:				
Côd post:				
Rhif ffôn cartref:				
Rhif ffôn gwaith:				
Rhif ffôn symudol:				
Ebost:				

## COFRESTRU PLENTYN A CHYTUNDEB Y RHIANT/GWARCHODWR (Parhad)

### TELERAU AC AMODAU

Cyfeiria 'rhiant/gwarchodwr', 'Fi' a 'fy' at rieni/gwarchodwyr sy'n ymrwymedig i'r telerau a'r amodau hyn.

#### Archebu a ffioedd

Ffioedd	
Clwb Cymerau	<b>£1.00</b> bob <b>hanner awr</b> ac am yr hanner awr cyflawn.

- Rwy'n cytuno i dalu'r ffioedd uchod **bob dydd Llun**, yn dilyn derbyn anfoneb gan yr ysgol ar y dydd Gwener blaenorol. **Bydd 10% yn cael ei ychwanegu at daliadau hwyr.**
- Bydd y clwb yn fy hysbysu o unrhyw newidiadau yn y ffioedd yn ysgrifenedig, o leiaf fis cyn eu rhoi ar waith.
- Cedwir yr hawl gan y clwb i godi am ddiffyg presenoldeb/absenoldebau, ac am fod yn hwyr yn casglu plant, y cyfan yn unol â pholisi cyrraedd a chasglu'r clwb.
- Deallaf na fydd y clwb ar agor yn ystod gwyliau ac HMS ysgol, neu os fydd yr ysgol ar gau oherwydd amgylchiadau annisgwyl.
- Cedwir yr hawl gan y clwb i wrthod mynediad pe bai anfonebau ddim yn cael eu talu am gyfnod o fis.

**Mae fy mhentyn yn gymwys i gael cinio am ddim:**  YDY  NAC YDY  
(ticiwch, os gwelwch yn dda)

#### Archebion rheolaidd (defnyddio'r clwb yn wythnosol):

Hoffwn petai fy mhentyn yn mynychu'r Clwb ar y dyddiau canlynol. (Ticiwch, os gwelwch yn dda)

	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
Clwb Cymerau					

#### Neu

#### Defnydd/Archebion Achlysurol:

Hoffwn petai fy mhentyn yn mynychu'r clwb yn achlysurol a byddaf yn hysbysu'r ysgol cyn gynted a phosib, ac erbyn 12:00y.p y diwrnod hwnnw fan bellaf. Deallaf y bydd y penderfyniad os bydd fy mhentyn yn cael lle yn nwylo'r ysgol ac yn seiliedig ar niferoedd y clwb y diwrnod hwnnw.  (Ticiwch, os gwelwch yn dda)

**Hoffwn i'm plentyn ddechrau ar ..... (rhowch y diwrnod dechrau).**

#### Anghenion deietegol

Byddaf yn rhoi i'r clwb fanylion llawn anghenion deietegol penodol fy mhentyn fel y gellir gofalu'n briodol amdano.

## COFRESTRU PLENTYN A CHYTUNDEB Y RHIANT/GWARCHODWR (Parhad)

### Cwynion

Mae'r clwb yn croesawu awgrymiadau a beirniadaeth adeiladol er mwyn cynnal darpariaeth o ansawdd uchel, a bydd yn gweithredu yn ôl unrhyw gwynion yn unol â'r gweithdrefnau gwynion. (Gweler y polisi a'r weithdrefn gwyno)

### Cyrraedd a chasglu'r plant

- Byddaf yn hysbysu'r clwb erbyn 12:00y.p y diwrnod hwnnw am bresenoldeb / ddiffyg presenoldeb fy mhlentyn yn unol â pholisi casglu'r clwb.
- Byddaf i, neu berson arall a enwir ar y ffurflen cofrestru plentyn, yn casglu fy mhlentyn **erbyn, ac nid yn hwyrach na 5 o'r gloch. Byddaf yn talu unrhyw ddirwyon am fod yn hwyr.**

### Trefniadau mewn achosion o salwch

- Ni fyddaf yn anfon fy mhlentyn i'r clwb os ydynt yn anhwylyd, a byddaf yn rhoi gwybod i'r clwb mor fuan â phosibl.
- Byddaf yn hysbysu'r clwb mor fuan â phosibl os yw fy mhlentyn yn datblygu salwch heintus, neu'n agored i ddatblygu salwch heintus, fel y gellir cymryd y camau priodol i hysbysu defnyddwyr eraill y clwb os bydd rhaid.
- Byddwch yn fy hysbysu, cyn gynted ag y bo'n ymarferol resymol, os dowch yn ymwybodol fod unrhyw blentyn wedi datblygu/dod yn agored i ddatblygu salwch ymledol tra oedd yn y clwb.
- Ni roddir meddyginiaethau fel mater o drefn. Byddaf yn cyfeirio at bolisi meddyginiaeth y clwb os daw'n angenrheidiol i weinyddu meddyginiaeth a ragnodir gan feddyg.

### Tripiau

Mae'n fwriad gan y clwb, yn achlysurol, i gymryd y plant ar wibdeithiau i le bynnag a fo'n bosibl, e.e. lan y môr, y prom, yr harbwr, Winllan Lloyd a.y.b. Bydd y clwb yn rhoi gwybod i mi ymlaen llaw, ac rwy'n cydsynio i'm plentyn gymryd rhan yn y gwibdeithiau hyn.

YDW

NAC YDW

(ticiwch, os gwelwch yn dda)

### Ffotograffau a Chyhoedduswydd

Deallaf y gellir cynnwys llun o'm plentyn mewn ffotograffau neu fideos o weithgareddau yn y clwb, ac y cânt eu defnyddio i bwrpas gwerthuso, gweithgareddau penodol megis drama creadigol, neu gyhoedduswydd.

Rwy'n cytuno i'r clwb gymryd ffotograffau neu fideos o'm plentyn. Gall rhai o'r lluniau yma gael eu rhoi yn y papurau newydd, eu cynnwys mewn cyhoeddiadau neu ar safleoedd wê yr ysgol, Cyngor Gwynedd neu sefydliadau eraill y byddwn yn cydweithio â nhw.

YDW

NAC YDW

(ticiwch, os gwelwch yn dda)

### Ymddygiad

- Nod y clwb yw cynnig ystod o weithgareddau chwarae mewn awyrgylch croesawgar. Deallaf yr ymdrinnir ag unrhyw achosion o ymddygiad annerbyniol yn unol â'r polisi ymddygiad.
- Ni oddefir bwlio, aflonyddu, dychrynu nac unrhyw ymddygiad sy'n debyogl o arwain at beryglu iechyd a diogelwch eraill. (Gweler y polisi gwrth-fwlio)
- Bydd y clwb yn cofnodi manylion toriadau mwy difrifol, ac yn eu trafod â mi, pan yn berthnasol i'm plentyn i.

## Cyfle cyfartal

Y mae'n nod gan y clwb i roi cyfle cyfartal i bob plentyn, beth bynnag fo'u hoed, eu gallu, cenedl, hil neu gefndir. (Gweler y polisi cyfle cyfartal)

## Gweithdrefnau brys

- Os bydd ar fy mhlentyn angen cyngor neu driniaeth feddygol frys, bydd y clwb yn fy hysbysu i a/neu bersonau cyswllt eraill a enwyd, yn syth, ac, os bydd rhaid, anfonir am ambiwlans i fynd â'm plentyn am driniaeth o'r fath.
- Os nad ydwyf wedi cyrraedd erbyn yr adeg y bydd angen i'r ambiwlans adael, bydd aelod o'r staff yn mynd gyda'r plentyn i'r ysbyty.
- Rwy'n cydsynio i unrhyw gyngor neu driniaeth a fo'n angenrheidiol yn ystod cyfnod rhedeg y clwb, ac yn awdurdodi'r clwb i arwyddo unrhyw ffurflen ganiatâd a fo'n ofynnol gan awdurdodau'r ysbyty os barna meddyg y byddai oedi cyn derbyn llofnod yn peryglu iechyd a diogelwch fy mhlentyn

YDW  NAC YDW (ticiwch, os gwelwch yn dda)

- Mae'r clwb yn rhoi ar waith gweithdrefnau argyfwng clir – gwacáu adeilad mewn achos tân neu ddigwyddiad arwyddocaol arall (gan gynnwys y drill tân). Bydd y clwb yn ymarfer y rhain ddwywaith y tymor (gan gydnabod bod plant ifanc ar eu hennill o wneud hyn yn amlach) a phan fydd plentyn, aelod staff neu wirfoddolwr newydd yn dechrau yn y clwb.

## Llofnodion

- Rwy'n cytuno i hysbysu'r clwb yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau yn y cofrestriad/contract hwn cyn gynted â phosib.
- Mae'r clwb yn cytuno i'm hysbysu o unrhyw newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau'r clwb a fyddai'n effeitho ar rieni, a gofynnir i mi arwyddo copi newydd o'r contract rhiant/clwb, yn arwyddo fy mod yn derbyn newidiadau o'r fath.
- Rhaid i'r clwb a'r rhiant/gwarchodwr roi 7 diwrnod o rybudd os am ddod â'r cytundeb i ben.
- Rwyf wedi darllen a deall y wybodaeth a roddir uchod, a pholisïau a gweithdrefnau'r clwb, a chytunaf i weithredu'n unol â thelerau ac amodau'r contract hwn.

<b>Enw'r rhiant/gwarchodwr:</b>	
<b>Llofnodwyd:</b>	<b>Dyddiad:</b>

<b>Enw'r person cofrestredig:</b>	
<b>Llofnodwyd:</b>	<b>Dyddiad:</b>

Yn unol â'n polisi ar ddiogelu data, rhennir gwybodaeth ar sail yr angen i wybod, fel y bo'n briodol, a storir cofnodion mewn cwpwrdd/man storio clodwy, â hawl mynediad cyfyngedig.

Diolch am eich cydweithrediad.

Adolygydd: Rhagfyr 8fed, 2017